# Gwaith Ieuenctid a'r Cwricwlwm Cymreig

Pecyn Cymorth i Ymarferwyr

29 May 2026

# Cynnwys


Cyflwyniad .... 0

Modiwl 1: Deall y Cwricwlwm i Gymru .... 0

Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer Gwaith Ieuenctid .... 1
Pwyntiau Allweddol i Ymarferwyr .... 1
Offeryn Ymarferol: Mapio Gwaith Ieuenctid at y Pedwar Diben .... 2

Modiwl 2: Rôl Gwaith Ieuenctid wrth Gynorthwyo Nodau’r Cwricwlwm .... 3
Beth sy’n gwneud Gwaith Ieuenctid yn Wahanol .... 3
Sut mae Gwaith Ieuenctid yn Ategu’r Cwricwlwm i Gymru .... 3
Yr Effaith a Welwyd ar Bobl Ifanc .... 4
Y Sialensiau wrth Gysylltu â’r Cwricwlwm .... 4
Pwyntiau Allweddol i Ymarferwyr .... 4

Modiwl 4: Offer i Feithrin Partneriaethau ag Ysgolion .... 5
4.1 Meithrin Cyd-ddealltwriaeth .... 5
4.2 Mapio Gwaith Ieuenctid i’r Cwricwlwm .... 6
4.3 Cychwyn Partneriaethau ag Ysgolion .... 6
4.4 Ffurfioli a Chynnal Partneriaethau .... 7
4.5 Cynnal Rôl Unigryw Gwaith Ieuenctid .... 7
4.6 Goresgyn Rhwystrau Cyffredin .... 7

Modiwl 5: Cynllunio a Chyflawni Ymyraethau dan Arweiniad Pobl Ifanc .... 8

Modiwl 6: Helpu i Ddarparu Gwaith Ieuenctid Achrededig .... 9

6.1 Pam fod Achrediad yn Bwysig .... 9
6.2 Mathau o Gyfleoedd Gwaith Ieuenctid Achrededig .... 9
6.4 Gwerth Achrediad i Bobl Ifanc a Phartneriaid Addysg .... 10
6.5 Cymorth ac Arweiniad Pellach .... 10
6.6 Cysylltu Achrediad â Fframweithiau Cenedlaethol .... 11

Modiwl 3: Astudiaethau Achos o bob rhan o’r DU ac Iwerddon .... 12

Modiwl 7: Cofnodi Effaith, Gwerthuso a Monitro .... 15

7.1 Mesur a Sefydlu Effaith yn Ymarferol .... 15

I gloi: Tua’r Dyfodol .... 16

Cyfeiriadau a Deunyddiau Darllen Pellach .... 17


**Cyhoeddwyd ar lein gan Youth Cymru, 2026**

## Cyflwyniad

“Mae gwaith ieuenctid yn elfen allweddol o’r system addysg yng Nghymru, a gyflenwir gan ystod eang o sefydliadau. Fel gwasanaeth craidd i bobl ifanc, mae gwaith ieuenctid yn rhan o wasanaethau cymorth ieuenctid ehangach, ond mae’n defnyddio dull addysgol neilltuol sy’n seiliedig ar ymgysylltiad gwirfoddol gan bobl ifanc fel partneriaid cyfartal yn eu datblygiad eu hunain.” - **Llywodraeth Cymru (2026)**

Bwriad y pecyn cymorth yma yw cynorthwyo gweithwyr ieuenctid yng Nghymru i ddeall, ymgysylltu â, a chydategu’r Cwricwlwm i Gymru. Mae’n cydnabod rôl unigryw gwaith ieuenctid fel math o addysg anffurfiol sy’n seiliedig ar berthnasau sy’n cynorthwyo datblygiad holistaidd pobl ifanc ac yn cyfrannu at bedwar diben y cwricwlwm.

Datblygwyd yr adnodd hwn trwy brosiect Llwybr 2 Taith Youth Cymru, wedi ei lywio gan arferion ar draws Cymru, y DU ac Iwerddon. Mae’n tynnu profiadau sefydliadau fel Youth Work Ireland, YouthAction Northern Ireland, Youth Scotland, ac UK Youth ynghyd. Mae’n adlewyrchu ffocws cenedlaethol a rhyngwladol cynyddol ar gryfhau’r cydweithio rhwng addysg ffurfiol ac anffurfiol.

Nod y pecyn yw:

- Cynorthwyo gweithwyr ieuenctid i gydweddu eu harferion â’r Cwricwlwm i Gymru
- Darparu offer ymarferol i feithrin partneriaethau effeithiol ag ysgolion a lleoliadau addysg
- Rhannu arferion gorau ac esiamplau o bob math o wahanol gyd-destunau
- Cryfhau hyder wrth dystiolaethu effaith gwaith ieuenctid yn y byd addysg

Mae’r pecyn wedi ei drefnu’n adrannau modiwlaidd y gellir eu defnyddio’n hyblyg ar gyfer hyfforddiant, gweithdai neu wrth ddysgu yn eich pwysau eich hun. Mae pob modiwl yn cynnwys trosolwg, strategaethau ymarferol, ac esiamplau o’r byd go iawn i gynorthwyo gweithwyr ieuenctid i gynnig darpariaeth o safon uchel, sy’n troi o gylch pobl ifanc, ac sy’n cyfoethogi deilliannau addysgol.

# Modiwl 1: Deall y Cwricwlwm i Gymru

Fframwaith sy’n troi o gylch y dysgwr yw’r Cwricwlwm i Gymru. Fe’i dyluniwyd i gynorthwyo pobl ifanc i fod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol a galluog
- Cyfranogwyr mentrus a chreadigol
- Dinasyddion egwyddorol a gwybodus
- Unigolion iach a hyderus

Y pedwar diben yma sydd wrth galon yr holl ddysgu ac maent yn darparu gweledigaeth gyffredin ar gyfer addysg ffurfiol ac anffurfiol.

Mae’r cwricwlwm wedi ei strwythuro o gylch chwe Maes Dysgu a Phrofiad, sef:

- Iechyd a Lles
- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'n cynnwys themâu trawsbynciol hefyd fel llesiant, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh), hawliau dynol, a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith, gan hybu dull holistaidd a rhyngddisgyblaeth o ddysgu.

Daeth y Cwricwlwm i Gymru'n statudol yn 2025 a chaiff ei ehangu i gynnwys pob dysgwr erbyn 2026, gyda phwyslais cryf ar gydweithio rhwng ysgolion, cymunedau a phartneriaid ehangach.

Gall gweithwyr ieuenctid gyfoethogi'r nodau hyn trwy gydweddu addysg anffurfiol â model holistaidd y cwricwlwm (Llywodraeth Cymru, 2020).

## Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer Gwaith Ieuenctid

Mae gwaith ieuenctid eisoes yn cydweddu'n gryf ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Mae ei ddull anffurfiol o weithredu sy'n seiliedig ar berthnasau yn cefnogi llawer o'r un deilliannau, yn arbennig mewn meysydd fel llesiant, datblygiad personol, a llais pobl ifanc.

Gall gweithwyr ieuenctid:

- Gynorthwyo'r Pedwar Diben trwy ddarparu profiadau dysgu dan arweiniad pobl ifanc
- Cyfrannu at y Meysydd Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant trwy ddarparu cymorth emosiynol, meithrin gwytnwch, a mannau diogel.
- Cyfoethogi'r Celfyddydau Mynegiannol a'r Dyniaethau trwy weithgareddau creadigol, diwylliannol a gweithredu cymdeithasol
- Datblygu sgiliau a galluoedd fel cyfathrebu, gwaith tîm, a meddwl beirniadol

Yn hytrach na dyblygu dysgu yn yr ysgol, mae gwaith ieuenctid yn ymestyn ac yn cyfoethogi'r cwricwlwm trwy ddarparu:

- Cyfranogiad gwirfoddol
- Perthnasau diogel sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth
- Cyfleoedd i leisio barn, dewis ac arwain
- Dysgu yn y byd go iawn ac yn y gymuned

## Pwyntiau Allweddol i Ymarferwyr

- Mae'r Cwricwlwm i Gymru'n hyblyg ac wedi ei ddylunio'n lleol, sy'n creu lle i waith ieuenctid gyfrannu
- Mae gwaith ieuenctid yn bartner naturiol wrth gyflawni'r Pedwar Diben
- Nid yw cydweddu'n golygu newid arferion gwaith ieuenctid, yn hytrach mae'n golygu gwneud arferion cyfredol yn weladwy ac yn fwriadol mewn perthynas â'r cwricwlwm
- Gall meithrin ieithwedd gyffredin gydag ysgolion gryfhau cydweithio a chydnabyddiaeth

## Offeryn Ymarferol: Mapio Gwaith Ieuenctid at y Pedwar Diben

Bydd y gweithgaredd cyflym yma'n helpu gweithwyr ieuenctid i ddeall sut mae eu harferion cyfredol eisoes yn cydweddu â'r Cwricwlwm i Gymru.

Cyfarwyddiadau (ar gyfer gweithdai neu fyfyrio fel tîm)

1. Meddyliwch am sesiwn, prosiect neu weithgaredd gwaith ieuenctid rydych chi'n ei gynnig ar hyn o bryd
2. Meddyliwch am y sgiliau, yr ymddygiad neu'r deilliannau y mae pobl ifanc yn eu hennill
3. Mapiwch y rhain yn erbyn y Pedwar Diben isod

| Gweithgaredd Gwaith Ieuenctid | Dysgwyr Uchelgeisiol a Galluog | Cyfranogwyr Mentrus a Chreadigol | Dinasyddion Egwyddorol a Gwybodus | Unigolion Iach a Hyderus |
|---|---|---|---|---|
| e.e. Prosiect cymunedol dan arweiniad pobl ifanc | Datrys problemau, cynllunio | Creadigrwydd, arweinyddiaeth | Ymwybyddiaeth gymunedol, gweithredu cymdeithasol | Hyder, gwaith tîm |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

**Munud fach i feddwl:**

Pa sgiliau mae'r bobl ifanc yn eu datblygu trwy'r gweithgaredd yma?

Ymhle mae gan y bobl ifanc ddewis, llais neu arweinyddiaeth?

Sut mae'r gweithgaredd yma'n cynorthwyo llesiant neu hyder?

A oes yna gyfleoedd i gysylltu hyn â dysgu yn yr ysgol neu lwybrau'r dyfodol?

# Modiwl 2: Rôl Gwaith Ieuenctid wrth Gynorthwyo Nodau'r Cwricwlwm

Mae gwaith ieuenctid yn darparu math arbennig a chydategol o addysg sy'n cynorthwyo nodau'r Cwricwlwm i Gymru. Trwy gyfranogi gwirfoddol, perthnasau sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth, a dysgu trwy brofiadau, mae gwaith ieuenctid yn creu amgylchedd lle gall pobl ifanc fagu hyder, sgiliau ac effaith y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Mae tystiolaeth o bob rhan o Gymru, y DU ac Iwerddon yn dangos bod gwaith ieuenctid yn chwarae rhan hollbwysig wrth gynorthwyo llesiant, ymgysylltiad a datblygiad personol, yn arbennig i bobl ifanc sy'n teimlo eu bod wedi ymddieithrio wrth addysg ffurfiol (Estyn, 2023; NYA, 2023) Mae'n chwarae rhan allweddol hefyd wrth hybu dinasyddiaeth a llais pobl ifanc trwy weithredu cymunedol, addysgu cymar wrth gymar, a chymryd rhan mewn penderfyniadau, sy'n greiddiol i nod y cwricwlwm i ddatblygu dinasyddion egwyddorol a gwybodus (Llywodraeth Cymru, 2020; Youth Work Ireland, 2021).

Mae'r profiadau a gasglodd yr ymarferwyr oedd yn gysylltiedig â'r gyfnewidfa ddysgu trawswladol rhwng Cymru ac Iwerddon yn bwrw goleuni pellach ar gyfraniad unigryw gwaith ieuenctid fel gofod lle mae pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, eu cefnogi a'u hymbweru mewn ffyrdd gwahanol i leoliadau addysg ffurfiol.

## Beth sy'n gwneud Gwaith Ieuenctid yn Wahanol

Mae gwaith ieuenctid yn cyfoethogi dysg gyda sgiliau bywyd a chymorth cyflogadwyedd, gan gynnig gweithgareddau creadigol, awyr agored a menter sy'n meithrin annibyniaeth a chymhelliant (YouthLink Scotland, 2023). Roedd ymarferwyr yn clustnodi'r gwahaniaethau allweddol rhwng gwaith ieuenctid a dysgu yn yr ystafell ddosbarth yn gyson:

- Gwirfoddol ac yn seiliedig ar berthnasau: mae pobl ifanc yn dewis ymgysylltu, gan feithrin ymddiriedaeth a natur agored
- Hyblyg a dan arweiniad pobl ifanc: mae rhaglenni'n addasu at ddiddordebau, anghenion a phrofiadau'r bobl ifanc
- Lle diogel i fynegi eu hunain: gall pobl ifanc "gael clust a chael eu clywed" heb feirniadaeth
- Ffocws ar ddatblygiad holistaidd: sy'n cynorthwyo twf emosiynol, cymdeithasol a phersonol ochr yn ochr â sgiliau

Disgrifiodd un ymarferydd gwaith ieuenctid fel *"gofod lle mae pobl ifanc yn cael clust, yn cael eu clywed, ac yn cael cefnogaeth mewn ffordd na all addysg ffurfiol ei darparu bob tro."*

## Sut mae Gwaith Ieuenctid yn Ategu'r Cwricwlwm i Gymru

Mae gwaith ieuenctid yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Pedwar Diben:

- Dysgwyr uchelgeisiol a galluog: Trwy weithgareddau dysgu anffurfiol, mentora a magu hyder
- Cyfranogwyr mentrus a chreadigol: Trwy brosiectau sy'n cael eu harwain gan y bobl ifanc eu hunain, mynegiant creadigol a chyfleoedd i ddatrys problemau
- Dinasyddion egwyddorol a gwybodus: Trwy weithredu cymdeithasol, dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau, a mentrau sy'n rhoi llais i bobl ifanc

- Unigolion iach a hyderus: Trwy gymorth llesiant, perthnasau sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth, ac amgylcheddau diogel

Pwysleisiodd yr ymarferwyr fod gwaith ieuenctid yn aml yn cyrraedd pobl ifanc sy'n ffeindio lleoliadau ffurfiol yn anodd, gan eu cynorthwyo i ailgysylltu â dysgu a magu hyder:

*"Mae'n gallu bod yn drawsnewidiol… gan droi 'Alla'i ddim' yn 'Gallaf i'."*

## Yr Effaith a Welwyd ar Bobl Ifanc

Dangosodd yr ymatebion i'r arolwg ddeilliannau cyson ar draws gwahanol leoliadau:

- Mwy o hyder a hunanhyder
- Gwell llesiant emosiynol a dycnwch
- Mwy o ymgysylltiad mewn dysgu a chyfranogaeth
- Datblygu sgiliau bywyd fel cyfathrebu, gwaith tîm ac arweinyddiaeth

*Mae Gwaith Ieuenctid yn gallu "newid bywydau".*

## Y Sialensiau wrth Gysylltu â'r Cwricwlwm

Er bod gwaith ieuenctid yn cydweddu'n dda â'r Cwricwlwm i Gymru mae ymarferwyr yn aml yn sôn am y sialensiau sydd ynghlwm wrth wneud y cysylltiad yma'n weladwy ac yn ddealladwy'n ymarferol. Un o'r rhwystrau mwyaf cyffredin yw trosi deilliannau gwaith ieuenctid yn iaith y cwricwlwm. Mae gwaith ieuenctid yn aml yn canolbwyntio ar ddatblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol, fel hyder, dycnwch, neu feithrin perthnasau, sy'n gallu bod yn anos eu mesur neu i'w cyfleu o fewn fframweithiau addysg ffurfiol.

Yn ogystal, mae yna ddiffyg cyd-ddealltwriaeth rhwng gweithwyr ieuenctid a staff ysgolion ynghylch eu rolau, eu dulliau o weithredu a'u gwerthoedd ei gilydd hefyd. Mae hynny'n gallu golygu bod gwaith ieuenctid yn cael ei danbrisio neu ei weld fel "rhywbeth ychwanegol" yn hytrach nac fel rhywbeth sy'n gwneud cyfraniad craidd at ddysg a datblygiad pobl ifanc. Mewn rhai achosion, mae'r datgysylltiad yma'n golygu bod pobl yn gweithio mewn seilos ar wahân, gyda chyfleoedd ar gyfer cydweithio ystyrlon yn cael eu colli.

Clustnododd ymarferwyr sialensiau ymarferol hefyd, gan gynnwys cyfyngiadau ar amser, capasiti ac adnoddau i feithrin a chynnal partneriaethau ag ysgolion. Mae blaenoriaethau croes o fewn lleoliadau addysg, ochr yn ochr â phwysau ar weithluoedd a chyllid yn y sector ieuenctid, yn gallu golygu bod cydweithio cyson yn anodd ei gynnal.

Yn olaf, mae yna risg y gallai gwaith ieuenctid gael ei dynnu'n rhy agos at systemau ffurfiol mewn ffyrdd sy'n gwanhau ei hynodrwydd. Mae'n hanfodol cynnal natur wirfoddol gwaith ieuenctid, sydd dan arweiniad pobl ifanc ac yn seiliedig ar berthnasau, hyd yn oed wrth ei gydweddu â nodau'r cwricwlwm. Y sialens felly, yw nid yn unig cysylltu gwaith ieuenctid â'r Cwricwlwm i Gymru, ond gwneud hynny mewn ffordd sy'n cynnal ei gryfderau unigryw wrth gadw ei effaith yn fwy gweladwy a gwerthfawr.

## Pwyntiau Allweddol i Ymarferwyr

- Nid rhywbeth ar wahân i'r Cwricwlwm i Gymru yw gwaith ieuenctid; mae'n bartner naturiol a hanfodol
- Yn ei ddull uniongyrchol o weithredu mae cryfder gwaith ieuenctid, nid mewn efelychu arferion o'r ystafell ddosbarth
- Nid y cyflawni yw'r her yn aml, ond cyfleu a thystiolaethu'r effaith mewn ffordd y gall ysgolion ei deall
- Mae llais a phrofiadau byw'r ymarferwyr yn offer pwerus wrth ddangos gwerth y gwaith

# Modiwl 4: Offer i Feithrin Partneriaethau ag Ysgolion

Mae partneriaethau cryf yn dechrau â dealltwriaeth gyffredin am rolau cydategol gweithwyr ieuenctid ac athrawon (NYA, 2022). Mae partneriaethau cadarn rhwng gwaith ieuenctid ac ysgolion yn hanfodol i gyflawni uchelgeisiau'r Cwricwlwm i Gymru. O'u cyflawni'n dda, mae'r partneriaethau hyn yn creu profiadau dysgu mwy cydlynol ar gyfer pobl ifanc, lle mae addysg ffurfiol ac anffurfiol yn cydweithio i gynorthwyo datblygiad holistaidd. Ond mae adeiladu partneriaethau effeithiol yn gofyn am fwy na dim ond ewyllys da. Mae angen datblygu cyd-ddealltwriaeth, cysoni nodau, a chreu strwythurau sy'n cynnal cydweithio dros amser.

Dylai gweithwyr ieuenctid fapio eu sesiynau at ddibenion y cwricwlwm, gan ddefnyddio fframweithiau fel y *Cwricwlwm i Gymru* i gysoni nodau ac iaith (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae Memoranda Dealltwriaeth (MoUs), offer cydgynllunio, a dulliau gwerthuso ar y cyd yn helpu i ffurfioli'r partneriaethau hyn a meithrin cynaliadwyedd (NYA, 2023; YouthLink Scotland, 2023). Mae'r modiwl yma'n darparu offer a strategaethau ymarferol i helpu gweithwyr ieuenctid i gychwyn, datblygu a chynnal partneriaethau ystyrlon ac ysgolion.

## 4.1 Meithrin Cyd-ddealltwriaeth

Un rhwystr cyffredin i weithio mewn partneriaeth yw diffyg dealltwriaeth ynghylch rôl a gwerth gwaith ieuenctid. Mae sefydlu iaith gyffredin yn gam cyntaf hanfodol.

**Strategaethau Ymarferol:**

- Defnyddio Pedwar Diben y Cwricwlwm i Gymru fel fframwaith cyffredin ar gyfer trafodaeth
- Mynegi'n glir beth y mae gwaith ieuenctid yn ei gynnig (e.e. perthnasau, rhoi llais i bobl ifanc, ymgysylltiad gwirfoddol)
- Rhannu esiamplau o effaith gan ddefnyddio iaith sy'n taro tant gyda sefydliadau addysg

**Offeryn: "Broliant" Gwaith Ieuenctid**

"Trwy waith ieuenctid, rydyn ni'n deall: Rhaglen addysg gynlluniedig sydd wedi ei dylunio at ddibenion cynorthwyo a chyfoethogi datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc trwy eu cysylltiad gwirfoddol, sy'n cydategu eu haddysg a'u hyfforddiant ffurfiol, academaidd neu alwedigaethol, ac sy'n cael ei darparu gan sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol yn bennaf. (Deddf Gwaith Ieuenctid 2001)" - Youth Work Ireland 'Youth Work for All'

"Mae gwaith ieuenctid yn broffesiwn gwerth chweil. Gall gweithwyr ieuenctid newid cwrs bywyd person ifanc, gan eu cynorthwyo i ennill sgiliau bywyd hanfodol, goresgyn rhwystrau a datgloi eu potensial." - NYA (2026)

"Pwrpas allweddol gwaith ieuenctid yw… "galluogi pobl ifanc i ddatblygu mewn ffordd holistaidd, gan weithio gyda nhw i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, er mwyn caniatáu iddynt ddatblygu eu llais, eu dylanwad a'u lle yn y gymdeithas, a chyflawni i'w llawn botensial." Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid (2023)

"Mae gwaith ieuenctid yn darparu neu'n hwyluso:

1. mannau a pherthnasau lle gall pobl ifanc fwynhau, teimlo'n ddiogel, cael cefnogaeth a gwerthfawrogiad, a dysgu i gymryd mwy o reolaeth dros eu bywydau…
2. cyfleoedd a phrofiadau ar hap, anffurfiol a strwythuredig … i gyfoethogi eu datblygiad personol, cymdeithasol a gwleidyddol;
3. cael cyngor, gwybodaeth, cymorth ac arweiniad perthnasol.

Mae gwaith ieuenctid da yn darparu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc, gall eu cynorthwyo trwy ddatblygiadau arwyddocaol yn eu bywydau, eu cynorthwyo nhw i ddeall eu hawliau, a'u hannog i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau." – Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (2022)

Awgrym: Sicrhewch eich bod chi'n addasu hyn at eich cyd-destun a'ch maes eich hun!

## 4.2 Mapio Gwaith Ieuenctid i'r Cwricwlwm

Er mwyn cryfhau cydnabyddiaeth, mae angen i weithwyr ieuenctid ddangos sut mae eu gwaith yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r cwricwlwm.

**Strategaethau Ymarferol:**

- Mapio gweithgareddau at y Pedwar Diben a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad
- Nodi ymhle mae gwaith ieuenctid yn cyfrannu at lesiant, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a datblygiad sgiliau

**Offeryn: Templed Mapio'r Cwricwlwm**

| Gweithgarwch Gwaith Ieuenctid | Cyswllt â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad | Y Pedwar Diben | Sgiliau a Ddatblygwyd | Tystiolaeth |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

## 4.3 Cychwyn Partneriaethau ag Ysgolion

Mae dechrau partneriaeth yn gallu teimlo fel her, yn arbennig lle nad yw'r perthnasau'n bodoli eisoes.

**Strategaethau Ymarferol:**

- Dechrau gyda sgyrsiau anffurfiol a meithrin perthnasau
- Clustnodi blaenoriaethau cyffredin (e.e. presenoldeb, llesiant, ymddygiad, pontio)
- Dechrau'n fach gyda gweithgaredd peilot neu brosiect byrdymor
- Bod yn glir ynghylch rolau, disgwyliadau a ffiniau

**I ddechrau'r sgwrs:**

- "Sut ydych chi'n cefnogi llesiant myfyrwyr ar hyn o bryd?"
- "A oes yna grwpiau o bobl ifanc sy'n llai ymgysylltiedig?"
- "Ymhle y gallai gwaith ieuenctid ychwanegu gwerth ochr yn ochr â'r hyn rydych chi'n ei wneud eisoes?"

## 4.4 Ffurfioli a Chynnal Partneriaethau

Wrth i bartneriaethau ddatblygu, gall mwy o strwythurau ffurfiol helpu i sicrhau cysondeb a chynaliadwyedd.

**Strategaethau Ymarferol:**

- Datblygu Memorandwm Dealltwriaeth (MoU) sy'n amlinellu'r gwahanol rolau a disgwyliadau
- Defnyddio sesiynau cyd-gynllunio i ddylunio rhaglenni gyda'ch gilydd
- Cytuno ar ddeilliannau a dulliau gwerthuso cyffredin
- Ymgorffori pwyntiau adolygu a myfyrio rheolaidd

**Offeryn: Rhestr Gyfeirio Cynllunio Partneriaethau**

- Cytuno ar nodau cyffredin
- Diffinio rolau a chyfrifoldebau
- Sefydlu dulliau o gyfathrebu
- Cytuno ar ddulliau o ddiogelu a rhannu data
- Clustnodi dull o werthuso

## 4.5 Cynnal Rôl Unigryw Gwaith Ieuenctid

Er bod cysoni'n bwysig, rhaid i waith ieuenctid gadw ei ddull unigryw o weithio.

Mae partneriaethau effeithiol yn cydnabod bod gwaith ieuenctid:

- Yn wirfoddol ac yn seiliedig ar berthnasau
- Yn blaenoriaethu llais pobl ifanc a chyd-ddylunio
- Yn darparu math gwahanol o amgylchedd dysgu

Mae cynnal y natur wahanol yma'n sicrhau bod gwaith ieuenctid yn parhau i ychwanegu gwerth, yn hytrach na dyblygu arferion dosbarth.

## 4.6 Goresgyn Rhwystrau Cyffredin

Clustnododd ymarferwyr nifer o sialensiau oedd yn codi drosodd a thro mewn gwaith partneriaeth, gan gynnwys cyfyngiadau ar amser, gwahanol flaenoriaethau a diffyg dealltwriaeth.

**Ffyrdd o Fynd i'r Afael â'r Sialensiau Hyn:**

- Dechrau gyda blaenoriaethau cyffredin i feithrin ymddiriedaeth a pherthnasedd
- Defnyddio tystiolaeth ac astudiaethau achos i ddangos effaith
- Datblygu cynlluniau bach y gellir eu cyflawni i adeiladu momentwm
- Buddsoddi amser mewn meithrin perthnasau, nid dim ond cyflawni
- Eirioli dros waith ieuenctid fel partner craidd, nid rhywbeth ychwanegol

## Modiwl 5: Cynllunio a Chyflawni Ymyraethau dan Arweiniad Pobl Ifanc

Yn anghenion, diddordebau a phrofiadau pobl ifanc mae gwreiddiau ymyraethau gwaith ieuenctid effeithiol. Mae hwyluso'r gwaith ar y cyd ag ysgolion, cynnwys cydrannau sy'n cael eu harwain gan bobl ifanc, a chynllunio logisteg gadarn yn hanfodol er mwyn sicrhau cysondeb â nodau'r cwricwlwm a gwerthoedd gwaith ieuenctid (NYA, 2023; Llywodraeth Cymru, 2020). Yn anghenion, diddordebau a phrofiadau pobl ifanc mae gwreiddiau ymyraethau gwaith ieuenctid effeithiol. Rhaid cyd-ddylunio ymyraethau gyda'r bobl ifanc a'u teilwra i fynd i'r afael â llesiant, dinasyddiaeth, a sgiliau personol, gan ddefnyddio dulliau hyblyg o weithio o ran gwaith ieuenctid (Youth Work Ireland, 2021; YouthLink Scotland, 2023).

Cydnabyddir bod gwaith ieuenctid yn ddull anffurfiol penodol o ddysgu sy'n wirfoddol, yn seiliedig ar berthnasau ac yn cael ei arwain gan bobl ifanc, gan gynorthwyo datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc (CWVYS, 2022). Mae gwaith ymchwil ar draws y DU yn dangos bod gwaith ieuenctid o safon uchel yn cyfrannu at well llesiant, ymgysylltiad, a sgiliau bywyd, yn arbennig i'r rhai sy'n ymgysylltu'n llai ag addysg ffurfiol (NYA, 2023; UK Youth, 2022). O'u halinio â'r Cwricwlwm i Gymru, gall yr ymyraethau hyn gynorthwyo llesiant, datblygu sgiliau, a dysg wrth gynnal egwyddorion craidd gwaith ieuenctid, gan sicrhau taw'r bobl ifanc sydd wrth galon ein gwaith.

Cymrwch olwg ar 'Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)' a 'Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Phwrpas' Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol er mwyn sicrhau cyflawniad effeithiol o safon uchel ar draws eich darpariaeth.

# Modiwl 6: Helpu i Ddarparu Gwaith Ieuenctid Achrededig

Mae gwaith ieuenctid achrededig yn cynnig ffordd strwythuredig o gydnabod a dilysu'r ddysg, y sgiliau a'r datblygiad personol y mae pobl ifanc yn eu cael trwy addysg anffurfiol. Mae'n cryfhau'r cysylltiad rhwng gwaith ieuenctid ac addysg ffurfiol trwy wneud deilliannau'n weladwy, yn fesuradwy ac yn drosglwyddadwy.

Yng Nghymru, mae achrediad yn cynorthwyo uchelgeisiau'r Cwricwlwm i Gymru trwy gydnabod dysgu sy'n gysylltiedig â llesiant, dinasyddiaeth, sgiliau a llwybrau datblygu.

## 6.1 Pam fod Achrediad yn Bwysig

Mae achrediad yn chwarae rhan bwysig wrth gryfhau arferion gwaith ieuenctid ac wrth ei gydnabod o fewn systemau addysg. Mae'n darparu cydnabyddiaeth ffurfiol ar gyfer dysgu anffurfiol, gan alluogi pobl ifanc i dystiolaethu i'w sgiliau, profiadau a'u datblygiad personol mewn ffyrdd sy'n cynorthwyo datblygiad i mewn i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Fodd bynnag, dylai achrediad gyfoethogi, nid newid arferion gwaith ieuenctid. Dylai'r ffocws aros ar gydnabod dysgu yn hytrach na chreu biwrocratiaeth ddiangen. Mae gwaith ieuenctid achrededig o safon uchel yn cadw ei egwyddorion craidd, mae'n cael ei arwain gan bobl ifanc, yn hyblyg ac wedi ei wreiddio mewn perthnasau. O'i gyflawni'n effeithiol, nid yw achrediad yn efelychu dulliau o weithredu yn y dosbarth, ond yn hytrach yn cydategu addysg ffurfiol trwy gynnig llwybrau amgen ar gyfer cyflawniad a chydnabyddiaeth.

I weithwyr ieuenctid, mae achrediad yn darparu fframwaith i gyfleu effaith eu gwaith mewn ffyrdd y mae ysgolion a phartneriaid yn eu deall. I ddarparwyr addysg ffurfiol, mae'n cynnig llwybrau ychwanegol i ddysgwyr lwyddo, ac yn arbennig y rhai nad ydynt yn llewyrchu mewn lleoliadau academaidd traddodiadol. Fel hyn, mae gwaith ieuenctid achrededig yn cydategu'r Cwricwlwm i Gymru trwy gyfrannu at ddatblygiad dysgwyr uchelgeisiol a medrus, ac unigolion iach a hyderus, a hynny wrth ehangu cyfranogiad a chydnabod amryw fathau o gyflawniad (Llywodraeth Cymru, 2020; NYA, 2023; UK Youth, 2022).

## 6.2 Mathau o Gyfleoedd Gwaith Ieuenctid Achrededig

Gall gweithwyr ieuenctid yng Nghymru gyflawni neu gefnogi amrywiaeth o raglenni achrededig fel:

- Unedau a Dyfarniadau Agored Cymru (Lefel Mynediad - Lefel 3): e.e. Gwaith Ieuenctid Digidol, Diogelu, Cyfathrebu, Gwaith Tîm
- Dyfarniadau Cyflawniad Ieuenctid (Her Ieuenctid - Platinwm): Dysgu sy'n seiliedig ar brosiectau ac sy'n cael ei asesu cymar wrth gymar (Youth Cymru ac Youth Scotland)
- Y Fagloriaeth Gymraeg (cysylltiadau â'r Her Gymunedol)
- Gwobr Dug Caeredin (DofE): Yn cael ei gydnabod ar draws Prydain a chan gyflogwyr
- Gwobr y Celfyddydau (Coleg y Drindod, Llundain): Cysylltiadau cadarn â Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol
- Dyfarniadau wedi eu teilwra neu eu dylunio'n lleol: Yn gyson â'r Pedwar Diben a'r deilliannau gwaith ieuenctid

Dylid sefydlu achrediad o fewn arferion gwaith ieuenctid yn hytrach na'i gyflawni ar wahân neu fel proses orffurfiol.

**Arferion Da:**

- Cyd-ddylunio prosiectau gyda'r bobl ifanc
- Integreiddio achrediad i raglenni cyfredol (e.e. chwaraeon, y celfyddydau, gweithredu cymdeithasol)
- Parhau i ddysgu, dan arweiniad pobl ifanc, yn hyblyg ac yn berthnasol
- Ffocws ar sgiliau a datblygiad, nid dim ond cwblhau'r dasg

**Offeryn: Mapio Gweithgaredd i Achrediad**

*Awgrym:* Dewiswch achrediad sy'n addas at eich lleoliad a'ch pobl ifanc, yn hytrach na'r ffordd arall o gwmpas.

| Gweithgaredd | Sgiliau a Ddatblygwyd | Cyswllt ag Achrediad | Tystiolaeth a Gasglwyd |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |

## 6.4 Gwerth Achrediad i Bobl Ifanc a Phartneriaid Addysg

Mae achrediad yn cynnig manteision clir i bobl ifanc ac i'r rhai sy'n cynorthwyo eu dysg ar draws lleoliadau gwaith ieuenctid ac addysg ffurfiol. I'r bobl ifanc, mae'n darparu cydnabyddiaeth o gyflawniad na fyddai'n cael ei gasglu o bosibl trwy'r llwybrau academaidd traddodiadol, gan helpu i fagu hyder, cymhelliant ac ymdeimlad o gynnydd. Mae'n gallu hwyluso pontio i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth hefyd, trwy ddarparu tystiolaeth ddiriaethol o sgiliau fel cyfathrebu, gwaith tîm, arweinyddiaeth a dycnwch.

I weithwyr ieuenctid, mae achrediad yn cryfhau'r gallu i dystiolaethu effaith a dangos sut mae eu gwaith yn cyfrannu at ddeilliannau addysgol ehangach. I ysgolion a darparwyr addysg ffurfiol, mae'n cynnig llwybr ychwanegol i ymgysylltu dysgwyr, ac yn arbennig y rhai sy'n teimlo wedi eu hymddieithrio neu sydd angen dulliau amgen o ddysgu.

Mae'n bwysig bod gwaith ieuenctid achrededig yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru trwy gynorthwyo'r Pedwar Diben a chyfrannu at ddatblygiad holistaidd y dysgwyr, fel a amlinellwyd ym Modiwl 1. Mae'n ategu gwerth profiadau dysgu amrywiol, ac yn helpu i greu system addysg fwy cynhwysol lle mae gwahanol fathau o gyflawniad yn cael eu cydnabod a'u dathlu.

## 6.5 Cymorth ac Arweiniad Pellach

Nid oes angen i weithwyr ieuenctid gyflawni achrediad ar eu pennau eu hunain. Mae amrywiaeth o sefydliadau ar draws Cymru'n darparu hyfforddiant, cymorth ac adnoddau i fagu hyder a chapasiti wrth gyflawni gwaith ieuenctid achrededig.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru (ETS Cymru): cymorth i hyfforddi a datblygu'r gweithlu
- Agored Cymru: canllawiau ar gyrff dyfarnu, unedau a chymorth canolog
- Youth Cymru: cyflawni ac achredu pobl ifanc, gweithwyr proffesiynol ac aelodau ar draws y sector
- Darparwyr cenedlaethol a lleol eraill sy'n cynnig DPP, mentora a sicrwydd ansawdd

Gall ymgysylltu â'r sefydliadau gynorthwyo gweithwyr ieuenctid i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r hyder angenrheidiol i gynnig darpariaeth achrededig o safon uchel.

## 6.6 Cysylltu Achrediad â Fframweithiau Cenedlaethol

Mae achrediad yn chwarae rhan allweddol wrth gysylltu gwaith ieuenctid â fframweithiau cenedlaethol ac addysgol ehangach yng Nghymru. Trwy gysoni deilliannau achrededig â'r Cwricwlwm i Gymru, gall gweithwyr ieuenctid ddangos sut mae eu darpariaeth yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Pedwar Diben a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Mae hyn yn cryfhau statws gwaith ieuenctid fel partner wrth ddarparu addysg holistaidd.

Mae rhaglenni achrededig fel unedau Agored Cymru a'r Dyfarniadau Cyflawniad Ieuenctid yn cyd-fynd â fframweithiau polisi ehangach hefyd, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), trwy gynorthwyo deilliannau sy'n ymwneud â llesiant, dinasyddiaeth weithredol a dysgu gydol oes. Yn ogystal, gall achrediad gyfrannu at y dystiolaeth a ddefnyddir yn ystod arolygiadau Estyn, ac yn arbennig mewn meysydd fel ymgysylltu dysgwyr, datblygiad a llais pobl ifanc.

Mae gwneud y cysylltiadau hyn yn ddiamwys yn helpu i sicrhau bod gwaith ieuenctid yn cael ei gydnabod nid fel peth ychwanegol, ond fel cyfrannwr ystyrlon at flaenoriaethau cenedlaethol a deilliannau addysg (Llywodraeth Cymru, 2020; CWVYS, 2022; NYA, 2023).

#### Pwyntiau Allweddol i Ymarferwyr

- Dylai achrediad gyfoethogi, nid newid arferion gwaith ieuenctid.
- Rhaid cadw cyflawniad dan arweiniad y bobl ifanc, yn hyblyg ac yn gynhwysol
- Canolbwyntiwch ar gydnabod dysgu, nid creu biwrocratiaeth
- Defnyddiwch achrediad i gydategu llwybrau addysg ffurfiol
- Manteisiwch ar gymorth allanol i feithrin hyder a chapasiti

# Modiwl 3: Astudiaethau Achos o bob rhan o'r DU ac Iwerddon

Ar draws Cymru, y DU ac Iwerddon, mae gwaith ieuenctid eisoes yn chwarae rhan allweddol wrth gynnal systemau addysg a chyfoethogi deilliannau ar gyfer pobl ifanc. Mae'r astudiaethau achos yma'n amlygu gwahanol fodelau o gydweithio rhwng gwaith ieuenctid ac addysg ffurfiol, gan ddangos sut y gall partneriaethau wella llesiant, ymgysylltiad a chyflawniad.

Mae pob un o'r astudiaethau achos isod yn cynnig profiadau y gallwch eu haddasu at eich cyd-destun lleol, gan ddangos sut mae arferion effeithiol yn edrych yn ymarferol.

### Astudiaeth Achos 1: Y Gogledd - Ysgolion Bro trwy lens Gwaith Ieuenctid

Ffocws: Gwella ymgysylltiad teuluoedd ag ysgolion a sicrhau addysg gyfartal i bob person ifanc

Yn Wrecsam, mae Ysgolion Bro Gogledd Cymru wedi ei sefydlu o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid.  Nod Ysgolion Bro, sef gweledigaeth Llywodraeth Cymru, yw gwneud ysgolion yn fwy o hyb i'r gymuned, lle mae pobl o'r gymuned yn chwarae rhan fwy yn yr ysgol; trwy'r CRhA, digwyddiadau cymunedol, a bod rhieni/teuluoedd yn chwarae rhan ymarferol ac yn cael eu cynnwys yn addysg y plentyn a bod pob person ifanc yn cael cyfle teg i fanteisio â'r holl gyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt.

Effaith:

- Gwella llesiant a phresenoldeb y disgyblion
- Mwy o gysylltiad â dysgu ar gyfer disgyblion, rhieni a theuluoedd.
- Cydweithio cryfach â rhieni a theuluoedd
- Cwricwlwm mwy datblygedig trwy gysylltiadau â'r gymuned
- Cydweithio aml-asiantaeth cryfach

Gwersi Allweddol i'w rhoi ar waith:

- Cyd-ddylunio a gwaith aml-asiantaeth yw'r allwedd i gynaliadwyedd
- Mae egwyddorion a gwerthoedd Gwaith Ieuenctid yn cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltu a chydweithio â rhieni, teuluoedd a phobl ifanc
- Mae ein hymgysylltiad yn dechrau o realiti byw'r person
- Mae ein dull o ddysgu'n digwydd yn anffurfiol ac yn hyblyg
- Partneriaid, nid derbynwyr, yw'r holl bartïon
- Mae ein harferion wedi eu gwreiddio mewn hawliau, cydraddoldeb a chynhwysiant

- Lisa Mathews

### Astudiaeth Achos 2: Yr Alban - Egwyddorion Gweithwyr Ieuenctid sydd wedi eu sefydlu fel dyfarniadau cydnabyddedig mewn Ysgolion

Ffocws: Dull ysgol-gyfan o weithredu o ran llesiant a chyflawniad

Yn yr Alban, sefydlwyd gweithwyr ieuenctid mewn amgylcheddau ysgol yn rhan o ddull cydlynol o gynorthwyo pobl ifanc Mae'r rolau hyn yn aml yn cael eu cyd-ddylunio a'u hariannu'n rhannol gan ysgolion, gan greu ymdeimlad cyffredin o berchnogaeth ac atebolrwydd.

Effaith:

- Gwella llesiant a phresenoldeb disgyblion
- Cynyddu ymgysylltiad â dysgu
- Cydweithio cryfach rhwng staff ysgolion a gweithwyr ieuenctid

Gwersi Allweddol i'w rhoi ar waith:

- Mae cyd-ddylunio a modelau ariannu cyffredin yn cynorthwyo cynaliadwyedd
- Gall sefydlu gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion normaleiddio cydweithio
- Mae diffinio rolau'n glir yn helpu i gynnal gwerth arbennig gwaith ieuenctid

### Astudiaeth Achos 3: Gogledd Iwerddon - Prosiect "Our Generation" Youth Action Northern Ireland ac Youth Work Ireland

Ffocws: Dinasyddiaeth, meithrin heddwch, a dycnwch

Mae'r rhaglen yma'n dod â gweithwyr ieuenctid i mewn i'r ystafell ddosbarth i gynnal sesiynau â ffocws ar feithrin heddwch, hunaniaeth a pherthnasau cymunedol. Mae'n cynorthwyo pobl ifanc i archwilio materion cymdeithasol cymhleth a datblygu gwytnwch a sgiliau meddwl beirniadol.

Effaith:

- Gwella dealltwriaeth am amrywiaeth a chynhwysiant
- Datblygu sgiliau meddwl creadigol a dialog
- Mwy o wytnwch ac ymwybyddiaeth gymdeithasol

Gwersi Allweddol i'w rhoi ar waith:

- Gall gwaith ieuenctid gynorthwyo meysydd o'r cwricwlwm fel dinasyddiaeth a'r dyniaethau
- Mae gofod diogel ar gyfer dialog yn hanfodol wrth archwilio materion cymhleth
- Mae gweithwyr ieuenctid yn cynnig sgiliau arbenigol o ran hwyluso a gwaith grŵp

### Astudiaeth Achos 4: Lloegr - Gwasanaeth Ieuenctid Sir Warwig

Ffocws: Presenoldeb, ymgysylltiad a chynhwysiant

Mae tîm Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir Warwig yn cynnig amrywiaeth o bartneriaethau cadarnhaol ag ysgolion ar draws Sir Warwig, lle mae gweithwyr ieuenctid yn cydweithio i gynorthwyo presenoldeb, ymddygiad a chynhwysiant. Mae'r partneriaethau hyn yn aml yn targedu pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithriad, mewn ffyrdd gwahanol sy'n cynnwys cymorth mentora, gwaith grŵp a rhaglenni sy'n seiliedig ar brosiectau. Mae'n cynnal gweithdai sy'n cynnwys perthnasau iach, rheoleiddio emosiynol, deall presenoldeb digidol a thrais ieuenctid.

Effaith:

- Gwella presenoldeb yn yr ysgol
- Cynyddu cymhelliant a chyfranogiad
- Datblygu sgiliau meddal a dealltwriaeth am bynciau ehangach addysg anffurfiol
- Gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr sy'n fregus ac wedi ymddieithrio

Gwersi Allweddol i'w rhoi ar waith:

- Gall ymyraethau gwaith ieuenctid ailgysylltu dysgwyr
- Mae partneriaethau'n fwyaf effeithiol o ganolbwyntio ar ddeilliannau cyffredin
- Mae gwaith ieuenctid yn ehangu cwmpas ysgolion i'r rhai sydd lleiaf ymgysylltiedig

# Modiwl 7: Cofnodi Effaith, Gwerthuso a Monitro

Mae gwerthuso'n hanfodol wrth ddangos gwerth gwaith ieuenctid a'i gyfraniad at y Cwricwlwm i Gymru. Mae'n helpu gweithwyr ieuenctid i dystiolaethu effaith, gwella arferion a chryfhau cydnabyddiaeth mewn cyd-destunau addysg a pholisi.

Dylai gwerthuso effeithiol mewn gwaith ieuenctid fod yn gymesur, yn ystyrlon ac â ffocws ar bobl ifanc, gan ganolbwyntio ar gofnodi profiadau a deilliannau go iawn yn hytrach na chynhyrchu data diangen.

## 7.1 Mesur a Sefydlu Effaith yn Ymarferol

Mae gwaith ieuenctid yn cyfrannu at amrywiaeth eang o ddeilliannau sy'n gyson â'r Cwricwlwm i Gymru a blaenoriaethau ehangach gwaith ieuenctid. Mae'r rhain yn cynnwys gwella hyder, dycnwch a llesiant emosiynol, meithrin ymgysylltiad â dysgu a chyfranogi; datblygu sgiliau bywyd allweddol fel cyfathrebu, gwaith tîm ac arweinyddiaeth; rhoi mwy o lais ac effaith i bobl ifanc; a meithrin eu datblygiad i mewn i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.  Gall deilliannau achredu ddarparu tystiolaeth glir o gyflawniad hefyd.

Ni oes angen systemau cymhleth i gofnodi'r effaith yma. Gall dull cytbwys o weithredu sy'n defnyddio dulliau meintiol ac ansoddol ddarparu darlun ystyrlon o newid. Gallai hyn gynnwys cyflawni arolygon cyn ac ar ôl sesiynau (e.e. hyder neu lesiant), tracio presenoldeb a chyfranogaeth, a chofnodi achrediad, ochr yn ochr â dulliau ansoddol gwell fel myfyrdodau'r bobl ifanc (ar ffurf ysgrifenedig, fideo neu sain), astudiaethau achos, a dulliau creadigol o werthuso fel waliau graffiti neu nodi teimladau ar ffurf emojis. Gall dulliau sy'n cael eu harwain gan bobl ifanc, fel cyfweliadau cymar wrth gymar neu drafodaethau grŵp, gryfhau dilysrwydd ac ymgysylltiad eto fyth.

Mae gwerthuso gwerth chweil ar ei fwyaf effeithiol o'i sefydlu mewn arferion gwaith ieuenctid pob dydd yn hytrach na'i drin fel gweithgaredd ar wahân. Mae clustnodi cyfnodau byr i fyfyrio ar ddiwedd sesiynau, cynnwys y bobl ifanc wrth benderfynu sut caiff y gwerthuso ei gyflawni, a defnyddio adborth i addasu dulliau o fynd ati yn y dyfodol, oll yn helpu i greu dull ymatebol a myfyrgar o weithredu. Yn ogystal â dangos gwerth, mae rhannu deilliannau â phobl ifanc, ysgolion a phartneriaid yn cryfhau cydweithio a gwelliannau parhaus.

*Awgrym:* Cadwch y gwerthuso'n syml, yn gymesur ac yn hwylus i'r bobl ifanc, Ei bwrpas yw cynorthwyo dysgu a gwella, nid creu baich gwaith diangen.

# I gloi: Tua'r Dyfodol

Datblygwyd y pecyn hwn i gynorthwyo gweithwyr ieuenctid, addysgwyr a phartneriaid ledled Cymru i gael gwell dealltwriaeth a chryfhau'r berthynas rhwng gwaith ieuenctid a'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'n pwysleisio rôl unigryw a gwerthfawr gwaith ieuenctid wrth gynorthwyo datblygiad holistaidd pobl ifanc, ac yn dangos sut y gall addysg anffurfiol a ffurfiol gydweithio i greu profiadau byw ystyrlon a chynhwysol.

Mae neges gyson wedi codi trwy'r pecyn hwn: nid rhywbeth ychwanegol at addysg yw gwaith ieuenctid. Mae'n rhan annatod a chydategol o'r system addysg. Trwy adeiladu ar ei egwyddorion craidd o gyfranogaeth wirfoddol, perthnasau ar sail ymddiriedaeth, ac arferion sy'n cael eu harwain gan bobl ifanc, gall gwaith ieuenctid gyfoethogi'r Cwricwlwm i Gymru a chynorthwyo pobl ifanc i fod yn unigolion uchelgeisiol, creadigol, egwyddorol a hyderus.

Mae'r esiamplau, yr offer a'r dulliau a rennir yma'n dangos bod cydweithio effeithiol eisoes yn digwydd ar draws Cymru, y DU ac Iwerddon. Fodd bynnag, mae yna waith i'w gyflawni o hyd i gryfhau partneriaethau, meithrin cyd-ddealltwriaeth, a sicrhau bod gwaith ieuenctid yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi o fewn systemau addysg.

Wrth edrych tua'r dyfodol, anogir ymarferwyr i:

- Defnyddio'r pecyn hwn i fyfyrio ar eu harferion eu hunain a'u cryfhau
- Meithrin a datblygu partneriaethau ag ysgolion a darparwyr addysg
- Gwneud effaith gwaith ieuenctid yn weladwy trwy gynllunio, achredu a gwerthuso
- Parhau i osod lleisiau pobl ifanc wrth galon pob agwedd ar eu gwaith

Mae'r pecyn hwn yn rhan o siwrnai barhaus. Wedi ei ddatblygu trwy brosiect Llwybr Taith 2 Youth Cymru a'i lywio gan ddysgu trawswladol, mae'n gam tuag at fwy o gydweithio, rhannu dysg a datblygiad y sector. Cymerodd gweithwyr proffesiynol ar draws Cymru ac Iwerddon ran yn ei ddatblygiad, gan gynnwys Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd, Gwasanaeth Ieuenctid Wrecsam, Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint, Gwasanaeth Ieuenctid Powys, Canolfan Adnoddau Finglas, a chynrychiolwyr o blith pobl ifanc. Diolch i chi am bopeth rydych chi'n ei wneud i gynorthwyo pobl ifanc.

Bydd Youth Cymru'n parhau i gynorthwyo'r gwaith yma trwy hyfforddiant, adnoddau a chyfleoedd i gydweithio ar draws Cymru ac yn rhyngwladol. Rydyn ni'n annog ymarferwyr i gadw mewn cysylltiad, rhannu eu dysg, a chyfrannu at ddatblygiad parhaus yr adnodd yma.

Gyda'n gilydd, trwy weithio ar draws sectorau a chadw pobl ifanc wrth galon y gwaith, gallwn adeiladu system addysg fwy cysylltiedig, cynhwysol ac effeithiol ar gyfer Cymru.

Diolch arbennig i Taith am droi'r rhaglen yma'n realiti, ac am sicrhau bod rhaglen gyfnewid ystyrlon yn bosibl ar draws Cymru.

# Cyfeiriadau a Deunyddiau Darllen Pellach


- ACT Training - *Training and Accreditation Support* https://www.acttraining.org.uk/
- Agored Cymru – *Unedau a Chymwysterau Achrededig* https://www.agored.cymru/
- CWVYS (2022) - G*waith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion* https://www.cwvys.org.uk/youth-work-in-wales-principles-and-purposes/
- Safonau Addysg Hyfforddiant (ETS Cymru): Cymorth i Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu https://etswales.org.uk/resources/training/
- Estyn (2019) - Cryfder Cydweithio https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/cryfder-cydweithio/
- Estyn (2022) - Ymgorffori gwaith ieuenctid targedig mewn ysgolion https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/ymgorffori-gwaith-ieuenctid-targedig-mewn-ysgolion/
- Gov.uk (2025) - Youth Matters: Your National Youth Strategy https://www.gov.uk/government/publications/youth-matters-your-national-youth-strategy/youth-matters-your-national-youth-strategy
- UK Youth - https://www.ukyouth.org/2025/11/celebrating-youth-work-the-people-and-places-shaping-brighter-futures/
- Taith - Taith yw rhaglen cyfnewid dysgu ryngwladol Cymru https://www.taith.cymru/
- Cyfraith Cymru (2021 - *Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021* https://www.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru-canllawiau-statudol
- Yr Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol (NYA) (2023) - *The Value of Youth Work* https://nya.org.uk/resource/the-value-of-youth-work/
- UK Youth (2025) - Celebrating Youth Work: The People and Places Shaping Brighter Futures
- UK Youth (2025) - Supporting young people in shaping the future of education https://www.ukyouth.org/2024/11/supporting-young-people-in-shaping-the-future-of-education/
- Llywodraeth Cymru (2020) - *Y Cwricwlwm i Gymru: Canllawiau* https://www.gov.cymru/cwricwlwm-cymru-canllawiau
- Youth Scotland (2025) - https://www.youthscotland.org.uk/awards/
- Youth Work Ireland (2021) - *Youth Work Ireland Strategy / Practice Resources* https://www.youthworkireland.ie/
- Youth Work Ireland - Our Generation https://youthworkireland.ie/youth-supports/our-generation/
- Youth Action Northern Ireland (2023) - https://www.youthaction.org/
- YouthLink Scotland (2023) - *Youth Work and Education / Curriculum for Excellence Resources* https://www.youthlinkscotland.org/
- Gwasanaeth Ieuenctid Wrecsam (2026) - Young Wrexham https://youngwrexham.co.uk/cy/
- Gwasanaeth Ieuenctid Sir Warwig (2026) - Darpariaeth ysgolion uwchradd Gwasanaeth Ieuenctid Sir Warwig https://www.warwickshire.gov.uk/targeted-youth-support-tys-1/tys-warwickshire-secondary-schools-offer

- Llywodraeth Cymru (2026) - Gwaith ieuenctid yng Nghymru: cyflawni ar gyferdelivering for young people. Canllawiau statudol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. https://www.llyw.cymru/gwaith-ieuenctid-yng-nghymru-cyflawni-dros-bobl-ifanc-html
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid (2023) - <https://nya.org.uk/document/national-occupational-standards-for-youth-work/>
- NYA (2026) – Beth yw Gwaith Ieuenctid? https://nya.org.uk/what-is-youth-work/
- Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (2022) - EGWYDDORION A DIBENION:: Beth yw Gwaith Ieuenctid? https://www.cwvys.org.uk/youth-work-in-wales/